

bwletin

gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 298 (Cymru) - 7 Awst 2021

Etholiadau Mai 2021: diweddariad ynghylch enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Yn unol â'n dull ar gyfer darparu diweddariadau ynghylch newidiadau i enwau, disgrifiadau, ac arwyddluniau pleidiau a nodwyd ym [Mwletin 295](#), gallwn gadarnhau na fu unrhyw ddiweddariadau mewn perthynas â phleidiau a gofrestrwyd i sefyll ymgeiswyr mewn etholiadau yng Nghymru ers [Bwletin 297](#).

Nid ydym yn disgwyl gwneud newidiadau pellach i'r gofrestr cyn i enwebiadau gau ar gyfer etholiadau mis Mai 2021.

Wrth dderbyn enwebiadau, rhaid i Swyddogion Canlyniadau wirio bod enw'r blaid neu unrhyw ddisgrifiad a roddir ar y ffurflen enwebu, yn ogystal â'r arwyddlun y gwneir cais amdano, wedi eu cofrestru ar [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) a bod y manylion a ddarparwyd yn cyfateb i'r rheiny a gofrestrwyd. I sicrhau eich bod yn gweld y wybodaeth ddiweddaraf, efallai y bydd angen i chi ddileu eich hanes pori neu adnewyddu'r dudalen. Os nad ydych yn sicr sut mae gwneud hyn, dylai eich tîm TG allu eich cynorthwyo.

Ffeil Zip arwyddluniau

Mae ffeil Zip o ddelweddau arwyddluniau ar gael ar ein gwefan, ac fe'i diweddarwyd ddiwethaf ar 31 Mawrth 2021. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw ffeiliau Zip a lawrlwythwyd cyn y dyddiad hwn at unrhyw ddiben.

Er y gall eich argraffwyr baratoi papurau pleidleisio gan ddefnyddio'r ffeil Zip, dylid defnyddio'r wybodaeth ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol i gadarnhau pa arwyddlun neu ddisgrifiad i'w argraffu ar y papurau pleidleisio. Dylech sicrhau felly eich bod chi a'ch argraffwyr ond yn lawrlwytho ac yn defnyddio'r ffeil Zip unwaith y bydd yr enwebiadau wedi cau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cofrestrau, [cysylltwch â ni](#).

Y

Comisiwn

Etholiadol

Cynnwys

Etholiadau Mai 2021: diweddariad ynghylch enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Diweddariad ynghylch newidiadau diweddar i'r gofrestr o bleidiau gwleidyddol.

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [fan hyn](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol](#).

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommissio>

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2021

n.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddad-danysgrifio](#) unrhyw bryd.